Jisc

# Anghenion dysgu digidol darpariaeth Prentisiaethau yng Nghymru

## Crynodeb gweithredol



Heriau presennol a blaenoriaethau ar gyfer darparu dysgu digidol yn y dyfodol

Medi 2026

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Crynodeb gweithredol

## Rhaglenni hyfforddi yn y gweithle yw prentisiaethau, lle mae dysgwyr yn ymgymryd â chyflogaeth â thâl wrth ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â swydd, a gweithio tuag at gymwysterau cydnabyddedig gyda chefnogaeth gan ddarparwr addysgol.

Yng Nghymru, mae darpariaeth prentisiaethau yn cael ei hariannu gan Medr, ac mae darpariaeth ar **Lefelau 2 i 5** yn cael ei chyflenwi ar hyn o bryd drwy rwydwaith cenedlaethol o ddarparwyr hyfforddiant dan gontract. Mae'r system hon yn dechrau cyfnod o newid, gyda disgwyl i gyflwyno dull newydd o ddarparu prentisiaethau o fis **Awst 2027**. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn ystyried anghenion dysgu digidol ar adeg pan fo'r rhaglen yn rhan sefydledig o system sgiliau Cymru ac yn paratoi ar gyfer diwygio yn y dyfodol.

Mae prentisiaethau'n chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu sgiliau, cynhyrchiant a thwf economaidd yng Nghymru ac ar draws llu o ddiwydiannau. Gan fod prentisiaid yn dysgu o fewn amgylcheddau gweithle gwahanol iawn, ni fydd eu cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso sgiliau digidol yr un fath ar draws pob rhaglen. Wrth i dechnolegau digidol gael eu cynnwys yn gynyddol mewn gweithleoedd, mae darparwyr prentisiaethau yn wynebu disgwyliadau cynyddol i ddatblygu galluoedd galwedigaethol dysgwyr ochr yn ochr â'r hyder a'r cymhwysedd i ymgysylltu ag amgylcheddau digidol mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w sector a'u rôl. Archwiliodd yr astudiaeth hon anghenion dysgu digidol darpariaeth prentisiaethau Lefel 2 i Lefel 5 yng Nghymru drwy gyfweliadau â'r **deg darparwr prentisiaeth dan gontract yn 2025/26**, rhanddeiliaid y sector, a dadansoddiad o dystiolaeth bresennol a data. Ni chynhwyswyd darpariaeth prentisiaeth gradd yn yr astudiaeth hon.

Mae darpariaeth prentisiaethau yng Nghymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mabwysiadu dulliau digidol ar gyfer cyflwyno, asesu, cyfathrebu a chefnogi dysgwyr. Fodd bynnag, mae gallu digidol ar draws y system yn parhau i fod yn anwastad. Mae hyder dysgwyr a staff yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan gyd-destun y diwydiant, amlygiad i dechnoleg yn y gweithle, a phrofiad unigol, gyda datblygiad digidol yn aml yn cael ei yrru gan ofynion cydymffurfio yn hytrach na meithrin gallu strwythuredig. O ganlyniad, gall prentisiaid gwblhau rhaglenni'n llwyddiannus heb ddatblygu'r sgiliau digidol ehangach y mae eu hangen yn gynyddol mewn gweithleoedd modern, tra bod darparwyr yn parhau i ddibynnu ar hyder staff unigol yn hytrach na gallu digidol sydd wedi'i ymgorffori'n gyson.

Mae mynediad digidol, cydraddoldeb a chynhwysiant yn parhau i fod yn her ar draws darpariaeth prentisiaethau. Er y gall y rhan fwyaf o ddysgwyr gael mynediad at wasanaethau digidol drwy ffonau clyfar, mae mynediad at ddyfeisiau addas, cysylltedd dibynadwy, systemau gweithle a chymorth cynhwysol yn llai cyson. Mae'r rhwystrau hyn yn arbennig o amlwg i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dysgwyr mewn ardaloedd gwledig, a'r rhai sy'n gweithio mewn amgylcheddau lle mae polisïau gweithle neu ofynion gweithredol yn cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau ac offer digidol. Er nad yw anghydraddoldeb digidol, neu "yr anallu i ryngweithio'n llawn â'r byd ar-lein"[1] o reidrwydd yn atal cyfranogiad, gall greu baich ychwanegol, lleihau ymgysylltiad, a chynyddu'r risg o brofiadau dysgu anghyfartal.

Mae systemau digidol y sector wedi esblygu'n gyflym, ond maent yn parhau i fod yn dameidiog iawn. Yn aml, mae darparwyr yn gweithredu nifer o lwyfannau datgysylltiedig ar gyfer dysgu, asesu, cydymffurfio, cyfathrebu ac adrodd, gan arwain at ymdrech ddyblyg, aneffeithlonrwydd gweinyddol, a phrofiadau anghyson i ddysgwyr, staff a chyflogwyr. Mae llawer o systemau masnachol wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer marchnad prentisiaethau Lloegr, gan olygu bod angen eu haddasu i fodloni gofynion Cymru, a chyfyngu ar gyfleoedd i greu profiadau digidol symlach sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Er bod rhai dulliau llwyddiannus wedi'u nodi, mae angen mwy o gysondeb ar draws y sector.

1 Digital Poverty Alliance – Together we can end digital poverty once and for all



Mewn perthynas â dysgu digidol ac addysgeg, mae darparwyr yn cydnabod yn gynyddol bod cyflwyno digidol llwyddiannus yn dibynnu ar ddylunio dysgu effeithiol yn hytrach na thechnoleg yn unig. Mae dysgu cymysg bellach wedi'i ymgorffori yn y ddarpariaeth prentisiaethau, ond mae dysgwyr yn parhau i werthfawrogi rhyngweithio wyneb yn wyneb, mentora, a chefnogaeth bersonol gan eu gweithle a'u darparwr. Y dulliau mwyaf effeithiol yw'r rhai sy'n rhoi dysgu digidol mewn cyd-destun o fewn ymarfer galwedigaethol, gan gydnabod gwahaniaethau mewn anghenion dysgwyr, lefelau rhaglenni, a disgwyliadau'r diwydiant. Mae cyfleoedd o hyd, fodd bynnag, i gryfhau addysgeg ddigidol a chefnogi staff i ddylunio profiadau dysgu deniadol ac effeithiol.

Mae deallusrwydd artiffisial a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wella cynhyrchiant, ymgysylltiad dysgwyr, a pherthnasedd galwedigaethol. Mae mabwysiadu yn tyfu, ond mae'n parhau i fod yn anwastad ac wedi'i gyfyngu gan ansicrwydd ynghylch asesu, polisi, gallu a rhoi ar waith. Mae heriau tebyg yn bodoli ar gyfer technolegau trochi a thechnolegau eraill sy'n dod i'r amlwg, lle mae diddordeb a mynediad yn aml yn fwy na'r capasiti, yr hyder a'r gefnogaeth y mae eu hangen ar gyfer integreiddio cynaliadwy i ddarparu prentisiaethau. Bydd gwireddu manteision y technolegau hyn yn galw am symud o arbrofi tuag at fabwysiadu strwythuredig yn seiliedig ar dystiolaeth.

Yn olaf, mae nifer o amodau system ehangach sy'n llunio dysgu digidol yn rhan o ystyriaethau ehangach ynghylch cyllido, darparu a diwygio fframwaith prentisiaethau yng Nghymru. Mae ansicrwydd ariannu (yr oedd darparwyr yn ei gysylltu â threfniadau hanesyddol ar gyfer cadarnhau dyraniadau) yn cyfyngu ar gynllunio a buddsoddi hirdymor, er y gallai adolygiad y model ariannu gan Medr helpu i fynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau a grëwyd gan amodau'r system bresennol.[2] Mae darparwyr hefyd yn wynebu cymwysterau sy'n ei chael hi'n anodd cadw i fyny â newid technolegol, er bod y cylch adolygu fframwaith prentisiaethau presennol yn rhoi cyfle pwysig i gryfhau'r cydlyniad â gofynion gweithle sy'n esblygu.[3] Er bod enghreifftiau cryf o gydweithio yn bodoli, roedd darparwyr yn nodi'n gyson yr angen am fwy o gydlynu ar lefel system i fynd i'r afael â heriau digidol cyffredin, a chefnogi dull mwy cydlynol o drawsnewid digidol ar draws darpariaeth prentisiaethau Cymru.

**Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cam nesaf datblygiad digidol ymhlith prentisiaethau Cymru yn ymwneud yn bennaf â mabwysiadu technoleg, ond â chyflawni alinio gwell: rhwng fframweithiau prentisiaethau ac arfer yn y gweithle; rhwng systemau digidol a model prentisiaethau Cymru; rhwng cydymffurfiaeth a phrofiad y dysgwr; a rhwng uchelgais darparwyr a'r amodau y mae eu hangen i gyflawni newid cynaliadwy. Bydd mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn yn galw am gamau cydlynol gan Medr, darparwyr, cyflogwyr, cyrff dyfarnu a phartneriaid yn y sector, a bydd yn helpu i sicrhau bod prentisiaethau'n parhau i ymateb i anghenion economi Cymru sy'n gynyddol ddigidol.**

2 **Medr/2026/17: Model cyllido prentisiaethau: ymgynghoriad – Medr**
3 **Medr,Prentisiaethau**

# Argymhellion

Mae'r adroddiad yn nodi tri phrif nod ar gyfer cryfhau dysgu digidol yn narpariaeth prentisiaethau yng Nghymru:

01 **Ymgorffori gallu digidol o fewn fframweithiau prentisiaeth a darpariaeth alwedigaethol**.
Dylid parhau i gynnwys disgwyliadau sgiliau digidol ac asesu yn fwy bwriadol mewn fframweithiau prentisiaeth, cymwysterau, a dysgu â chymorth yn y gweithle, fel bod dysgwyr yn datblygu galluoedd digidol sy'n berthnasol i'w diwydiant a'u rôl.

02 **Gwella mynediad digidol, cyfranogiad a chefnogaeth i ddysgwyr**.
Dylai'r sector ddatblygu dealltwriaeth gliriach a chanllawiau arfer da ynghylch mynediad at ddyfeisiau digidol, cysylltedd, hygyrchedd, cyfyngiadau yn y gweithle a chymorth i ddysgwyr. Dylai darparwyr gryfhau eu gwiriadau anghenion digidol sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr drwy gydol y daith prentisiaeth, adolygu a gwella profiadau defnyddwyr o systemau digidol.

03 **Cryfhau dylunio dysgu digidol a chyfunol o fewn darpariaeth prentisiaethau**.
Dylid annog darparwyr i ddylunio dysgu digidol o amgylch anghenion dysgwyr, diwydiant a rhaglenni, ac i gefnogi datblygiad staff. Dylid cefnogi darparwyr gyda chanllawiau ymarferol sy'n canolbwyntio ar addysgeg ddigidol, dylunio cynhwysol, darpariaeth symudol yn gyntaf, dulliau lled band isel, a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

Bydd cyflawni'r nodau hyn yn galw am gamau cydlynol gan Medr, darparwyr prentisiaethau, Jisc, cyrff dyfarnu, cyflogwyr, a phartneriaid yn y sector. Yn benodol, mae cyfleoedd i gydweithio ar ofynion system sy'n benodol i brentisiaethau, ymgysylltu â chyflenwyr, canllawiau a rennir, adnoddau addysgeg ddigidol, mabwysiadu technoleg sy'n dod i'r amlwg, a chydlynu rhwng darparwyr.

## Casgliad

Mae gan Gymru gyfle arwyddocaol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes wrth ddatblygu'r ddarpariaeth ddigidol a sgiliau prentisiaethau, sy'n berthnasol i sector cyflogaeth pob prentis. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y daw'r manteision mwyaf nid o ddefnyddio technoleg ymhellach yn unig, ond o gamau cydlynol i gryfhau gallu digidol, gwella cynhwysiant, lleihau darnio systemau, cefnogi dylunio dysgu effeithiol, a chreu'r amodau ar gyfer arloesi cynaliadwy. Drwy weithredu ar y cyd, gall Medr, darparwyr, cyflogwyr a phartneriaid yn y sector helpu i sicrhau bod prentisiaethau'n parhau i fod yn berthnasol, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion economi Cymru sy'n gynyddol ddigidol.

Jisc
4 Portwall Lane
Bristol
BS1 6NB
0300 300 2212
**help@jisc.ac.uk**
**jisc.ac.uk**

Anghenion dysgu digidol darpariaeth Prentisiaethau yng Nghymru